217

# Can Ddigrifol,

Yn gosod allan fy hanes a'm trafferth ar ol i'm gymeryd cydmar bywyd, yr hon, er galar a gofid y dywedwyf, a drodd allan yn

# WRAIG FELLDIGEDIG;

---

TON—"*Billy O'Rook is the boy, Sir.*"

---

1

Er bod flynyddoedd yn y byd
Heb ddynes glyd i'm cwyno,
Ac ysgwyd llaw pan awn mewn llid,
A chusan i'm cysuro;
Meddyliais gwell oedd cym'ryd gwraig,
Fel 'roedd yn rhaid ar reol,
Pe byddai mhen o dan ryw glwyf
Mi deimlwm'n fwy dymunol.
A phenderfynais gyda hyn
I garu'r dŷn a dynes:
A d'weyd y gwir i chwi ar lawr,
Ni wyddwn ni fawr o'i hanes;
Gwirionedd yw, 'rwyn byw mewn aeth,
Mai hon y fath fileines.

2

Pan oedd hi 'n weddw, hi oedd yn ddel,
Doedd un fel Nel trwy'r pentref;
'Roedd ganddi, gwn, a dweyd ar goedd
Ryw gannoedd o gariadau;
Priodais hono ar ddydd Llun,
Fel mai pob un yn gwybod,
Gwae imi 'rioed ei gweled hi,
Yr hen wiber ddigydwybod:

X20522722 7

2

Ni choed hi ddim cyn deg o'r gloch
I dendio'r moch a minau ;
Pan ddeudwn wrthi air o dde
I'm gwyneb tê hi luchiai,
Rwy 'n hyll fy llun, fel gwyr pob dyn,
Oherwydd un fel yma.

3

'Rwyf bron gwallgofi yn y fan,
Does neb mor anghalonog ;
Pan ddel y dydd i derbyn tâl,
Rhaid iddi gael pob ceiniog ;
Pe bawn i'n ceisio chwech yn ol,
Hi ngalwai'n ffol a gwirion.
O ddrws y tŷ, i ffwrdd rai hi
I barlwr y RED LION,
Ac yno gwariai ddau neu dri
O Sylltau er mwyn meddwi,
Gan smocio'n iawn o'i chetyn du,
Mae'n fudur heb rifedi ;
Meddyliais weithian, ar hyn o sen,
I fyn'd ar 'mhen i foddi.

4

'Rol dod yn rhydd o'm gwaith bob dydd,
O ! mor galed bydd y gelyn,
Rwy'n garfod byw ar datws rhost,
A hithau dost a menyn ;
Cawn weithiau enwyn hefo hwy,
Er bod yn fwy dymunol,
Fu 'n byd erioed ei bath,
Yn wir, mai'n waeth na 'r diafol,
'Rwyf finau siwr yn tewi son,
Er maint fy mhoen am newyn,
Pe bai yn marw maes o law,
Mi fyddwn heb fraw yn frenhin,
'Rol imi ddod yn rhydd, o ran
Y fath greadur anghyffredin.

3

Rwy 'n gorfod taenu 'm gwely gwael
  Bob nos cyn cael fy swpar,
A gwneyd pob peth trwy 'r tŷ yn ddel,
  Er cadw Nel yn hawddgar ;
'Rwy 'n cyneu 'r tân cyn mynd o'r tŷ
  Bob bore, fel mae 'n peri,
A gwneuthur brecwast i'r hen sot,
  A lluchio 'r pot a'r lleisi ;
Er hyn i gyd, mae 'n nhrin i gas,
  A'm cloi i maes nosweithiau ;
Chwi allwch goelio'r ganiad hon,
  'Rwy 'n aml bron a llwgu,
Mae wedi nhrin i'n ddigon drwg,
  I'w rho'i mewn mwg i'w mygu.

6

Hi aeth i ffair y Waen, ryw dro,
  Yn gyfan, dylwn gofio,
A meddwl llawn i brynu llo,
  Ne gosyn 'roedd am geisio ;
Hi feddwodd yno'n feddw fawr,
  Gan syrthio i lawr i'r llaca,
A naddu ' i thrwyn trwy golli ei thraed,
  A'i gwaed fel afon lifa.
Eis yno'n syth, pan glywais son
  Am ryfedd boen fel yna,
Ni chredai fawr ei bod yn fyw,
  Wrth weled lliw ei gruddia,
'Rol golli'r pwrs yn môn rhyw berth,
  Cyn prynu gwerth y dima.

7

Ces fenthyg berfa Will o'r Ddol,
  I ddwyn y ffol ddifenydd,
A'r gwyr yn dew yn myn 'd a dod,
  Ni ches erioed fath g'wilydd :
Ei dillad oedd yn dyllau i gyd,
  Waith bod mewn brig a drysni,

Nes llenwi mron yn llawn a llid,
Wrth weled yr hylles felly.
Bu genyf dan y pwmp ar lawr
Am fwy nag awr a hanner,
A hithau'n gwaeddi fel y cawr,
Nad oeddwn i fawr o gydmar,
'Rol lluchio dwfr arni'n faith,
A sebon—hi ddaeth yn sybar.

8

Holl fechgyn ieuaingc glewion glan,
Rhai mawr a mân, pob manau,
Rwy 'n rhoddi rhybydd i chwi ar goedd
Rhag dod 'run modd a minnau ;
Ro wn gynt yn wiw, a hardd fy lliw,
Pan roeddwn byw fy hunan ;
Ond 'nawr mai 'm trwyn bron cwrdd am gên,
Trwy drallod, yr hen ddylluan.
Pe tai 'r gŵr du yn myn'd a hi,
A'i chrogî fry ar dderwen,
Hi fyddai'n awr o Jubilee,
Rwy 'n siwr i mi fy hunan ;
Mi wnawn i mwy 'run ferch yn wraig,
Pe tai hi graig o arian.

IEUAN AB JOB,

PENYDARRAN.